WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y ddogfen: 127A2012



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru bob blwyddyn gan gynnwys £15 biliwn a drosglwyddir i Gymru bob blwyddyn trwy bleidlais gan Senedd San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo bron i £5.5 biliwn o'r arian hwn i lywodraeth leol, trwy gyfrwng grantiau cyffredinol a phenodol. Mae llywodraeth leol, yn ei thro, yn codi £2.1 biliwn arall trwy'r dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gofalu bod arian cyhoeddus yn cyfrif, trwy hyrwyddo gwelliannau, fel bod pobl Cymru yn elwa ar wasanaethau cyhoeddus atebol, wedi'u rheoli'n dda, sy'n cynnig y gwerth am arian gorau posibl. Mae hefyd yn ymrwymo i nodi a rhannu enghreifftiau o arfer da ledled sector cyhoeddus Cymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth Alastair McQuaid, Nick Selwyn a chydweithwyr o dan arweiniad Jane Holownia i gynnal yr Asesiad Gwella a llunio'r adroddiad hwn.

# Cynnwys

**Crynodeb a chynigion ar gyfer gwella** **4**

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 8

Mae dull y Cyngor o gyflawni amcanion gwell yn parhau i ddatblygu ac yn arwain at well perfformiad mewn llawer o feysydd, er y byddai gwella ei adroddiad cyhoeddedig yn dangos i ddinasyddion pa mor dda mae'r Cyngor yn cyflawni ei waith 9

Mae'r Cyngor wedi datblygu ei Amcanion Gwella gwreiddiol i adlewyrchu ei flaenoriaethau newydd uchelgeisiol ac yn parhau i gryfhau trefniadau ar gyfer eu cyflawni 11

Mae'r Cyngor wedi sicrhau gwelliannau mewn nifer o feysydd blaenoriaeth 16

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn helpu pobl agored i niwed i barhau i fyw'n annibynnol 16

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran gwella mynediad i addysg cyfrwng Gymraeg a darparu rhaglenni sy'n cefnogi pobl i gael gwaith 20

Mae gwaith y Cyngor i sicrhau gwelliannau sy'n helpu i greu a chynnal yr ardal fel lle diogel, llewyrchus a dymunol yn amrywio o ran safon 22

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi crynodeb da o'i berfformiad er y gallai wella ei hunanwerthusiad o lwyddiant ei waith 25

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 31

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Dorfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 32

**Atodiad 3**
Cyfrifon a defnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen o adnoddau 33

**Atodiad 4**
Amcanion Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 36

**Atodiad 5**
Cynnydd o gymharu â chynigion blaenorol ar gyfer gwella 38

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ba mor dda mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwella a darparu eu gwasanaethau. Gan ystyried gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ac arolygiaethau perthnasol Cymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n dair prif adran, sy'n cwmpasu gwaith cynllunio, darparu a gwerthuso gwelliannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor).

2 Ar y cyfan, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod **dull y Cyngor o gyflawni amcanion gwell yn parhau i ddatblygu ac yn arwain at well perfformiad mewn llawer o feysydd, er y byddai gwella ei adroddiad cyhoeddedig yn dangos i ddinasyddion pa mor dda mae'r Cyngor yn cyflawni ei waith.**

3 Gwelsom fod gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol ac mae'n ymrwymedig i gyflawni'r weledigaeth hon trwy weithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, mae trosi'r weledigaeth hon yn gyson i gamau gweithredu a chanlyniadau yn her, a fydd yn gofyn i'r Cyngor ganolbwyntio'n barhaus ar wella a ffurfioli ei ddull o gynllunio yn y tymor canolig. Mae angen i'r Cyngor ddangos sut mae pethau wedi gwella i ddinasyddion yn well hefyd. Mae'r Cyngor wedi datblygu ei Amcanion Gwella gwreiddiol i adlewyrchu ei flaenoriaethau newydd uchelgeisiol ac yn parhau i gryfhau trefniadau ar gyfer eu cyflawni.

4 Mae'r Cyngor hefyd wedi sicrhau gwelliannau yn nifer o'i feysydd blaenoriaeth. Daethom i'r casgliad hwn ar sail y canlynol:

- mae'r Cyngor yn helpu pobl agored i niwed i barhau i fyw'n annibynnol;
- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran gwella mynediad i addysg cyfrwng Gymraeg a darparu rhaglenni sy'n cefnogi pobl i gael gwaith; ac
- mae gwaith y Cyngor i sicrhau gwelliannau sy'n helpu i greu a chynnal yr ardal fel lle diogel, llewyrchus a dymunol yn amrywio o ran safon.

5 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol, yn cynnwys:

- cyhoeddi cynlluniau ar gyfer gwella;
- gwneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus;
- cyhoeddi asesiad o'i berfformiad; a
- dilyn canllawiau statudol.

6 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i’r casgliad bod:

- y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella, ac mae’r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â’r gofyniad statudol i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliannau parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon; a bod
- y Cyngor wedi cyflawni ei holl ddyletswyddau o ran cyhoeddi gwybodaeth am welliannau, ond y dylai sicrhau ei fod yn rhoi mwy o sylw i ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth weithredu, yn benodol wrth ddangos effaith ei waith ac adrodd yn llawn ar gyflawni ei amcanion a’i fwriadau.

7 Yn olaf, mae’r adroddiad yn nodi ein safbwyntiau ar asesiad y Cyngor ei hun o’i berfformiad a’i drefniadau. Daethom i’r casgliad bod adroddiad y Cyngor o’i berfformiad yn ystod 2010-11 yn sôn am welliannau yn y rhan fwyaf o feysydd y canolbwyntiwyd arnynt, er y gallai ddangos hyn yn fwy effeithiol trwy gynnal gwerthusiad cliriach o ba mor dda mae wedi cyflawni ei amcanion a’i fwriadau. Mae wedi datblygu ei Amcanion Gwella gwreiddiol ar gyfer 2011-12 er mwyn adlewyrchu ei flaenoriaethau newydd uchelgeisiol.

# Cynigion ar gyfer gwella

8 Nid oes gennym argymhellion ffurfiol ond rydym yn cyflwyno'r cynigion canlynol ar gyfer gwella i'r Cyngor er mwyn cefnogi gwelliannau:

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | Gwerthuso ac adrodd ar yr effaith mae cyllidebau llai yn ei chael ar wasanaethau rheng flaen i nodi'r peryglon sy'n codi o benderfyniadau buddsoddi ac ymdrin â'r rhain. |
| **C2** | Parhau i fynd i'r afael â'r cynigion a'r camau gweithredu ar gyfer gwella a nodwyd mewn adroddiadau archwilio a rheoleiddio blaenorol. |
| **C3** | Gwella gwybodaeth am gostau unedau, costau gweithgarwch, meincnodau a mesurau perfformiad ariannol eraill i helpu i wneud penderfyniadau ariannol mwy gwybodus. |
| **C4** | Pennu mesurau llwyddiant clir ar gyfer yr holl amcanion a chefnogi gwaith monitro perfformiad effeithiol trwy adrodd am ganlyniadau yn glir a rheolaidd. |
| **C5** | Gwella trefniadau hunanasesu ac adrodd am berfformiad trwy:<br>• adrodd yn glir y graddau y cwblhawyd y camau gweithredu ar gyfer cyflawni Amcanion Gwella ac a gyrhaeddwyd y targedau ar gyfer gwella;<br>• pennu mesurau llwyddiant sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer pob Amcan Gwella ac adrodd ar y rhain;<br>• cyflwyno darlun cytbwys o ba mor dda mae'r Cyngor wedi cyflawni mewn perthynas â phob Amcan Gwella;<br>• cynnwys hunanwerthusiad clir yn ei Adroddiad ar Berfformiad sy'n dangos a yw wedi cyflawni pob Amcan Gwella neu'n gwneud cynnydd boddhaol at wneud hynny;<br>• darparu mwy o ddata perfformiad a meincnodi cymharol i ddinasyddion er mwyn iddynt allu barnu perfformiad yn well; ac<br>• adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni targedau i ddinasyddion. |

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

9 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ceir disgrifiad cryno o ddyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol ar dudalen 2.

10 O dan y Mesur, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad blynyddol am ba mor dda mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Nid yw cynllunio a chyflawni gwelliannau yn golygu y bydd gwasanaethau'n gwella bob amser a gall olygu gwneud yr un peth gyda llai o adnoddau. Mae Atodiad 1 yn cyflwyno mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg), Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi creu darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio'i gyflawni a sut maent yn mynd ati i wneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd a wnaeth y Cyngor ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan ystyried hunanasesiad yr Awdurdod.

11 Gydol yr adroddiad hwn, rydym yn nodi beth sydd angen i'r Cyngor ei wneud er mwyn gwella ei wasanaethau. O gofio'r amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol iawn pe na baem yn canfod rhywbeth y gellir ei wella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i Weinidogion Llywodraeth Cymru y dylent ymyrryd mewn rhyw fodd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – ac os gwneir argymhelliad ffurfiol, rhaid i'r Cyngor ymateb iddo'n gyhoeddus cyn pen 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn cyflwyno cynigion i'r Cyngor, disgwyliwn iddo weithredu arnynt cyn dilyn hynny wedyn.

12 A yw'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i chi, ac yn hawdd i'w ddeall? Mae croeso i chi anfon sylwadau trwy e-bostio info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae dull y Cyngor o gyflawni amcanion gwell yn parhau i ddatblygu ac yn arwain at well perfformiad mewn llawer o feysydd, er y byddai gwella ei adroddiad cyhoeddedig yn dangos i ddinasyddion pa mor dda mae'r Cyngor yn cyflawni ei waith

13 Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor yn trefnu ei waith ei hun i sicrhau gwelliannau, y prif amcanion y mae'r Cyngor yn eu pennu ar ei gyfer ei hun, ei gynnydd a'i effaith, a sut mae'n adrodd ar ei berfformiad i ddinasyddion. Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar y wybodaeth rydym wedi ei chrynhoi a'i rhannu a chanfyddiadau'r gwaith blaenoriaeth a wnaed eleni. Mae'r adroddiad yn nodi barn yr Archwilydd Cyffredinol ar berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan y Mesur a'r cynnydd penodol y mae wedi'i wneud wrth gyflawni yn erbyn ei Amcanion Gwella.

14 Yn ogystal â rhoi trefniadau effeithiol ar waith i gynllunio ar gyfer gwelliannau a'u cyflawni, mae'n bwysig bod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o hyd a lled y cynnydd a'r gwelliannau y mae'n eu gwneud. Mae'r Cyngor wedi nodi ei asesiad ei hun o'i berfformiad yn *Ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol sy'n Bwrw Golwg yn ôl Dros y Flwyddyn Ariannol 2010/11* (yr Adroddiad ar Berfformiad). Mae'r Cyngor yn dda ar y cyfan am fonitro ei berfformiad ei hun ac mae'n diwygio ei fesurau llwyddiant er mwyn iddo allu dangos effaith ei waith yn well. Un o'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, a chynghorau eraill yng Nghymru, yw sicrhau nad yw'n colli golwg ar y ffaith fod yn rhaid iddo barhau i gynnal ei waith arferol wrth iddo ganolbwyntio ar y trefniadau ar gyfer gwella yn y dyfodol a sicrhau ei fod yn cyflawni amcanion penodol.

15 Ym mis Awst 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol lythyr *Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol* i'r Cyngor. Roedd y llythyr hwn yn rhoi sylwadau ar ddatblygiadau ers yr adroddiadau blaenorol a daeth i'r casgliad bod gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol a'i fod wedi ymrwymo i gyflawni hyn drwy weithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, mae trosi'r weledigaeth hon yn gyson i gamau gweithredu a chanlyniadau yn her, a fydd yn gofyn i'r cyngor ganolbwyntio'n barhaus ar wella a ffurfioli ei ddull o gynllunio yn y tymor canolig. Hefyd, mae angen i'r Cyngor ddangos sut mae pethau wedi gwella i ddinasyddion yn well hefyd. Roedd y prif ganfyddiadau a oedd yn ategu llythyr *Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol* yr Archwilydd Cyffredinol fel a ganlyn:

- Mae arweinwyr y Cyngor wedi nodi gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol sy'n cael ei hategu gan flaenoriaethau gwleidyddol a fframwaith darparu clir, er nad yw hyn wedi'i roi ar waith yn gyson eto. Mae strwythurau a systemau ar gyfer llywodraeth yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol, ond nid oes gan aelodau wybodaeth ddigonol i'w galluogi i graffu ar benderfyniadau a pherfformiad.
- Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol newydd sy'n nodi ei gyfeiriad strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'n adlewyrchu'r Cynllun Cymunedol a ddatblygwyd gyda phartneriaid, ac mae wedi'i lunio drwy ymgysylltu ac ymgynghori'n dda â staff a rhanddeiliaid.

- Er bod dulliau rheoli cyllideb da ar waith, mae twf mewn galw a thoriadau mewn cyllid ariannol yn golygu bod y Cyngor, fel y sector cyhoeddus i gyd, yn wynebu pwysau cyfalaf a refeniw sylweddol mewn meysydd gwasanaethau allweddol, yn enwedig gwasanaethau plant, sy'n gofyn am sicrhau arbedion sylweddol parhaus a dull wedi'i integreiddio'n dda ar gyfer cynllunio ariannol a chynllunio gwasanaethau yn y tymor canolig. Er bod gan y Cyngor weledigaeth dda ar gyfer gwella a'i fod yn ymwybodol o'r heriau sy'n ei wynebu, dim ond yn ddiweddar y mae wedi dechrau datblygu cynllun ariannol tymor canolig ffurfiol er bod ei waith a'i gynlluniau wedi canolbwyntio ar y tymor canolig ers blynyddoedd. Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn cael ei ddatblygu fel rhan o ymarfer cyllideb 2012-13 i gwmpasu'r cyfnod i 2015-16, a disgwylir y bydd wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2012.
- Mae'r Cyngor yn ymateb i bwysau ariannol drwy ystod eang o ddatblygiadau, gan gynnwys gwasanaethau ar y cyd â phartneriaid a chytundebau strategol ag undebau llafur. Mae wedi lleihau nifer y staff, ond nid oes ganddo gynllun gweithlu ffurfiol ar waith eto i sicrhau bod anghenion staffio'r dyfodol yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor drefniadau sefydledig ar waith i reoli a defnyddio ei weithlu. Mae'n gwneud cynnydd da o ran cryfhau'r trefniadau hynny ymhellach drwy ddiweddaru polisïau a gweithdrefnau yn unol ag arferion gorau. Mae ganddo hefyd weledigaeth strategol uchelgeisiol ar gyfer datblygu strategaeth gweithlu ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus yn Nhorfaen.
- Mae'r Cyngor yn parhau i gydweithio ag eraill i ddatblygu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau. Fel llawer o gynghorau eraill yng Nghymru, mae angen i'r trefniadau ar y cyd ar gyfer sicrhau craffu effeithiol ar y cydweithio hwn a gwerthusiad cadarn o'u costau, manteision a canlyniadau ar gyfer dinasyddion fod yn gliriach a dylid eu datblygu ymhellach.
- Mae'r systemau ar gyfer casglu a dilysu data perfformiad wedi gwella. Mae'r dull newydd o reoli risg a'r gwaith parhaus o ddatblygu a gweithredu system Ffynnon yn atgyfnerthu'r ffordd o fonitro ac adrodd ar wybodaeth am berfformiad. Mae atebolrwydd staff ar gyfer cyflawni amcanion corfforaethol wedi'i atgyfnerthu hefyd. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn gallu gwerthuso ei effaith yn gyson eto ac nid yw gwybodaeth allweddol am gostau a chymariaethau â safonau mewnol ac allanol ar gael yn eang er mwyn cefnogi hunanasesiadau effeithiol o berfformiad, adrodd cyhoeddus ac atebolrwydd.

16 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi pennu bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur i gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella, ac mae'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

17 Mae'r Cyngor wedi derbyn yr holl feysydd i'w gwella a nodwyd yn ein hadroddiadau blaenorol. Mae wedi gwneud cynnydd yn y mwyafrif ohonynt ac mae hyn wedi'i grynhoi yn Atodiad 5. Pan fo camau gweithredu ar waith, byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar gynnydd y Cyngor wrth eu gweithredu.

## Mae'r Cyngor wedi datblygu ei Amcanion Gwella gwreiddiol i adlewyrchu ei flaenoriaethau newydd uchelgeisiol ac yn parhau i gryfhau trefniadau ar gyfer eu cyflawni

18 Ym mis Ebrill 2011, cyflwynodd y Cyngor ei ail Gynllun Corfforaethol. Mae'r Cynllun hwn yn nodi saith blaenoriaeth y Cyngor ar gyfer gwella gwasanaethau hyd at 2016 ac mae'n amlinellu'n glir yr hyn y mae'n ceisio'i wella ar gyfer dinasyddion a chymunedau Torfaen. Mae sail resymegol y Cyngor ar gyfer dewis y meysydd y mae'n canolbwyntio ar eu gwella yn seiliedig ar ei berfformiad cyfredol, blaenoriaethau gwleidyddol a gweithgarwch ymgynghori diweddar. Maent yn cynnwys:

- Cefnogi teuluoedd a phlant sy'n byw mewn tlodi i ddod drwy'r dirwasgiad.
- Atal trigolion Torfaen rhag mynd yn ddigartref.
- Diogelu plant, yn enwedig y rhai ag anghenion addysgol (arbennig) ychwanegol a chefnogi agweddau cadarnhaol at addysg.
- Amddiffyn yr oedolion sydd fwyaf agored i niwed a darparu cefnogaeth i'r rhai ag anableddau a chyflyrau hirdymor eraill.
- Targedu cymorth i gymunedau a theuluoedd difreintiedig sy'n dioddef oherwydd trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Defnyddio adnoddau'n ddoeth, gan gynnwys cynnal a chadw'r seilwaith priffyrdd a lleihau gwastraff a'r defnydd o ynni.
- Cefnogi mentrau sy'n creu gwaith a hyfforddiant ar gyfer cyfleoedd gwaith. Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni yn creu heriau newydd ar gyfer holl sefydliadau'r sector cyhoeddus ledled Cymru.

19 Mae nifer yr Amcanion Gwella y mae'r Cyngor wedi'u pennu wedi cynyddu o chwech yn 2010-11 i 25 yn 2011-12. Mae'r 25 o Amcanion Gwella yn adlewyrchu'r saith flaenoriaeth gyffredinol yng *Nghynllun Corfforaethol* 2011-2016, sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Gymunedol a ddatblygwyd gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae camau'n cael eu cymryd i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y cynlluniau gweithredu ar gyfer cyflawni Amcanion Gwella'r Cyngor a chynlluniau gwasanaethau unigol. Rhestrir Amcanion Gwella'r Cyngor yn Atodiad 4.

20 Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir yr hyn y mae'r Amcanion Gwella yn gobeithio'i gyflawni mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cyngor, ynghyd â mesurau llwyddiant cyffredinol. Caiff y Cynllun Corfforaethol ei gefnogi gan gyfres o gynlluniau gwella gwasanaethau a gwella timau, sy'n darparu gwybodaeth am gamau gweithredu, mesurau llwyddiant ac amserlenni ar gyfer eu cyflawni. Mae llinellau sylfaen perfformiad cyfredol a thargedau gwella wedi'u cynnwys yn system rheoli perfformiad Ffynnon y Cyngor ar gyfer pob mesur llwyddiant allweddol, ond ni adroddir ar bob un o'r rhain yn gyhoeddus. Nodir risgiau mewn cofrestri risg corfforaethol a gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd mesurau risg a pherfformiad bob chwarter drwy ddefnyddio system rheoli perfformiad Ffynnon, ond nid yw hyn yn digwydd yn gyson ledled pob maes gwasanaeth ar hyn o bryd.

21 Yn sgil yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae'r Cyngor yn adolygu ei Amcanion Gwella i weld a all gyflawni pob un o'r amcanion yn ystod oes *Cynllun Corfforaethol 2011-16* ac mae'n gweithio drwy gyfres o sefyllfaoedd cyllido i bennu pa rai ddylai gael blaenoriaeth.

Aelodau etholedig sy’n arwain y trafodaethau hyn ac nid ydynt yn drafodaethau cyhoeddus eto. Disgwylir i’r trafodaethau ddod i ben fel rhan o broses pennu cyllideb 2012-13.

**Mae’r Cyngor wrthi’n cwblhau ei ddogfen cynllun ariannol tymor canolig er mwyn sicrhau bod ei adnoddau yn cael eu defnyddio i gyflawni ei flaenoriaethau allweddol ac yn parhau i reoli gwasanaethau gyda chyllidebau llai**

22 Mae gan y Cyngor drefniadau da ar waith i bennu cyllidebau ac mae’n canolbwyntio ar ei flaenoriaethau. Mae’r broses o wneud penderfyniadau ariannol yn seiliedig ar wybodaeth ariannol gynhwysfawr, er bod diffyg cynllun ariannol tymor canolig ffurfiol hyd yma yn golygu nad yw cynlluniau ariannol tymor hirach y Cyngor wedi bod mor glir ac eglur ag y gallent. Mae gwaith yn cael ei wneud i fynd i’r afael â hyn a bydd cynllun ariannol tymor canolig ffurfiol yn cwmpasu’r cyfnod 2012-2015 yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2012. Mae’r Cyngor yn gallu rheoli newidiadau a sicrhau ei fod yn ymdrin â risgiau ariannol drwy broses rheoli risg sefydledig, sy’n sicrhau ei fod yn ystyried risgiau ac yn eu lliniaru lle’n bosibl.

23 Fel pob cyngor yng Nghymru, roedd angen i Dorfaen ostwng ei wariant refeniw. Ar gyfer 2011-12, nododd y Cyngor £9.2 miliwn o arbedion i sicrhau cyllideb gytbwys. Rhoddodd gwasanaethau fesurau arbedion y cytunwyd arnynt ar waith ac mae’n parhau i weithredu i sicrhau’r arbedion hyn. Mae ffigurau monitro refeniw mis Medi 2011 yn dangos bod y Cyngor ar y trywydd iawn i gyflawni canlyniad cytbwys ar gyfer 2011-12.

24 Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn Nhorfaen yn parhau i wynebu pwysau sylweddol. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, roedd 20 y cant yn fwy o blant yn derbyn gofal a chynnydd o 58 y cant o ran plant a oedd angen eu hatgyfeirio. Roedd dwywaith cymaint o achosion agored mewn gwasanaethau oedolion yn Ionawr 2011 o gymharu ag Ionawr 2009. Gwariwyd tua £1.4 miliwn yn fwy na’r hyn a bennwyd ar gyfer cyllideb Gofal Cymdeithasol a Thai yn 2010-11 ac mae’n rhaid i’r gwasanaeth bellach sicrhau arbedion o £3.8 miliwn (o’r £9.2 miliwn a ddyfynnir uchod) yn 2011-12. Mae sefyllfa ariannol Gofal Cymdeithasol a Thai wedi gwella yn ystod 2010-11 oherwydd y defnydd rhagweithiol o adnoddau buddsoddi i arbed gan y Cyngor er mwyn ceisio llunio pecynnau gofal o’r maint cywir.

25 Mae gwariant cyfalaf hefyd yn gostwng a rhagwelir gostyngiad o hyd at 40 y cant mewn cyfalaf craidd rhwng 2010-11 a 2013-14, sy’n adlewyrchu toriadau yng nghyllid Llywodraeth Cymru. Mae’r gostyngiad hwn yn cyflwyno heriau sylweddol i’r Cyngor, yn enwedig wrth ddarparu ei gynlluniau ar gyfer moderneiddio adeiladau ysgolion o dan y fenter *Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif*. Llwyddodd y Cyngor i dderbyn cymeradwyaeth amlinellol ar gyfer rhaglen saith mlynedd gwerth £81.6 miliwn. Bydd y cyllid cyfatebol o 50 y cant ar gyfer y rhaglen yn defnyddio’r rhan fwyaf o gyllid cyfalaf y Cyngor sydd ar gael tan 2019-20 a bydd yn cynnwys dyrannu adnoddau cyfalaf craidd, derbynebau cyfalaf cyffredinol, derbynebau cyfalaf o safleoedd ysgolion sydd ar gael fel rhan o’r cynigion, a benthyca darbodus.

26 Yn ddiweddar, rhoddodd yr archwilydd penodedig a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor, ac ar sail hyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu fod y datganiadau ariannol yn foddhaol. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

**Mae'r Cyngor yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i ymgysylltu â'r cyhoedd**

27 Mae ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd yn gwahodd dinasyddion i gymryd rhan mewn trafodaethau, deialog a chamau gweithredu ynglŷn â sut y darperir gwasanaethau a pha wasanaethau sydd angen rhoi blaenoriaeth i'w gwella. Amlygodd gwaith Asesu Gwelliannau Swyddfa Archwilio Cymru yn 2010 ymgysylltu â'r cyhoedd fel mater pwysig yn y mwyafrif o awdurdodau lleol. O ganlyniad, mae wedi bod yn destun astudiaeth Cymru gyfan er mwyn adolygu gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd ledled llywodraeth leol.

28 Datgelodd ein hadolygiad fod y Cyngor wedi ymrwymo i ymgynghori ac ymgysylltu. Cynllunnir gweithgarwch ymgysylltu yn systematig, gydag enghreifftiau da o ymgynghoriadau ar faterion amrywiol. Mae gan y Cyngor brosesau cadarn ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd, gyda phwyslais sylweddol ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer gwaith arolygu ac mae'n defnyddio'r wefan i gyhoeddi datganiadau i'r wasg a hyrwyddo ei berfformiad. Mae'r Cyngor yn cynnwys cymunedau wrth wneud penderfyniadau ac mae'n grymuso cymunedau lleol i ddarparu prosiectau. Panel Pobl Torfaen yw'r prif ddull ar gyfer cynnwys y cyhoedd wrth gynllunio a darparu polisïau, ac mae tystiolaeth bod gweithgarwch ymgysylltu wedi arwain at welliannau i ansawdd gwasanaethau.

**Mae gan drefniadau newydd y Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg y potensial i gefnogi gwelliannau parhaus, ond maent yn parhau i ddatblygu ac aeddfedu, ac mae lle i wella**

29 Mae defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol yn hollbwysig er mwyn gweddnewid darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, gwella'r canlyniadau ar gyfer dinasyddion a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Gall technoleg gefnogi gwahanol ffyrdd o weithio, darparu gwasanaethau ac ymgysylltu â dinasyddion, a galluogi cynghorau i ddarparu mwy am lai. Mae sut mae technoleg yn cael ei darparu a'i rheoli yn effeithio'n uniongyrchol ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd gwaith ledled y Cyngor ac mae'n effeithio ar bob gweithiwr cyngor bron iawn. Gall llywodraethu TGCh gwael arwain at ddefnyddio systemau amhriodol, systemau ddim ar gael a rhwystredigaeth ledled y sefydliad.

30 Yn 2010, nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod llawer o awdurdodau lleol yn ceisio sicrhau bod technoleg yn cael ei defnyddio'n effeithiol er mwyn cynorthwyo i weddnewid gwasanaethau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd, ac o ganlyniad, mae holl gynghorau Cymru wedi cynnal adolygiadau o dechnoleg. Mae dull y Cyngor yn gyson â Strategaeth TGCh Llywodraeth Cymru ac mae'r Cyngor yn ceisio defnyddio technoleg i weddnewid ei sefydliad a'i wasanaethau a gwneud arbedion o ran costau cynnal. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn canolbwyntio'n rhy aml ar gyfleoedd tymor byr nad ydynt yn cyd-fynd â chynlluniau cyflenwi gwasanaethau.

31 Mewn trefniant ar y cyd â Chyngor Sir Fynwy a Heddlu Gwent, mae gwasanaethau technoleg amrywiol wedi'u crynhoi mewn Canolfan Adnoddau a Rennir. Mae'r ganolfan yn unigryw yng Nghymru ac mae ei datblygiad yn cyd-fynd â Strategaeth TGCh Llywodraeth Cymru o annog cydweithio ym maes TGCh yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, deallwn fod yr heddlu yn ymchwilio i uwch aelod o staff yn y Ganolfan Adnoddau a Rennir yn dilyn cyhuddiadau. Yn sgil ymchwiliadau parhaus yr heddlu, nid ydym yn cynnal unrhyw waith archwilio allanol yn y maes hwn ar hyn o bryd.

**Mae gan y Cyngor hanes da o gydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid i gynllunio a darparu gwasanaethau**

32 Mae gan y Cyngor hanes da o gydweithio ag eraill. Mae'r Cyngor yn cydweithio â sefydliadau sector cyhoeddus amrywiol i ddarparu gwelliannau i ddinasyddion yn Nhorfaen. Er enghraifft, mae rhaglenni gwaith pwysig fel *Rhaglen Llesgedd Gwent*[1] a Chydweithrediad Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru[2] yn dangos ymrwymiad i gydweithio sy'n ailfodelu sut y darperir gwasanaethau i lawer o ddinasyddion a rhanddeiliaid, ac mae'n cynrychioli rhaglenni newid pwysig o ran sut mae'r Cyngor yn trefnu ei waith. Mae'r Cyngor hefyd yn cydweithio â chynghorau bwrdeistref sirol Blaenau Gwent a Chaerffili i gaffael contract trin/gwaredu nwyddau organig hirdymor.

**Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac mae bellach yn darparu dogfennau etholiad dwyieithog, ond mae angen iddo gyflawni ei oblygiadau statudol eraill o ran Deddf yr Iaith Gymraeg**

33 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithio gyda chynghorau i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau Iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r prif gyfrifoldeb am ystod a safon gwasanaethau yn nwylo'r cynghorau sy'n eu darparu, gan weithio'n unol â fframwaith statudol a chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Disgwylir i bob cyngor ddarparu adroddiad monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n egluro sut y rhoddwyd ei gynllun ar waith. Mae'r adroddiad yn galluogi'r Bwrdd i gynnig cyngor ar sut y gallai cyngor wella ei drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a hyrwyddo gwelliannau.

34 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi canfod bod y Cyngor wedi llwyddo i ddarparu dogfennau etholiadol yn ddwyieithog yn unol â'i *Gynllun Iaith Gymraeg*. Fodd bynnag, roedd anawsterau'n parhau gyda'r wybodaeth oedd ar gael ar-lein. Mae'r wefan wedi parhau i achosi pryder, ond mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatrys y sefyllfa erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Canmolwyd y Cyngor am wella trefniadau craffu'r *Cynllun Iaith Gymraeg*. Mae pryderon yn parhau ynglŷn â

1 Partneriaeth yw Rhaglen Llesgedd Gwent rhwng Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a chynghorau Torfaen, Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Chasnewydd sydd â'r nod o ddarparu gwasanaethau wedi'u hintegreiddio i bobl agored i niwed.

2 Mae Consortiwm De Ddwyrain Cymru yn cynnwys awdurdodau addysg lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'r Consortiwm yn datblygu dulliau ar y cyd ar gyfer gwella perfformiad ysgolion a chefnogi datblygiad personol staff addysg.

gallu'r Cyngor i gynnig gwasanaethau wyneb i wyneb yn y Gymraeg a dylai gwella'r diffyg data cyfredol ar sgiliau Cymraeg ddechrau fynd i'r afael â'r mater hwn.

# Mae'r Cyngor wedi sicrhau gwelliannau mewn nifer o feysydd blaenoriaeth

35 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi pa mor dda y mae'r Cyngor yn gwella ei wasanaethau. Mae'n adlewyrchu safbwyntiau AGGCC mewn perthynas â gwasanaethau plant ac oedolion ac Estyn o ran addysg, ac yn defnyddio rhai o'n hadolygiadau ein hunain o berfformiad y Cyngor yn erbyn rhai o'r amcanion gwella penodol y pennodd y Cyngor iddo'i hun yn 2010-11.

## Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn helpu pobl agored i niwed i barhau i fyw'n annibynnol

**Mae'r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid i fynd i'r afael â materion iechyd a lles cymhleth yn Nhorfaen**

36 Mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu blynyddol o ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna, bydd AGGCC yn adolygu a dadansoddi tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Bydd y dadansoddiad hwn yn arwain at arolygiad a chynllun adolygu unigol ar gyfer pob cyngor. Mae dadansoddiad AGGCC, a'r arolygiad a'r cynllun adolygu, yn cael eu cynnwys mewn llythyr asesu blynyddol a gyhoeddir. Rhoddwyd y trefniadau hyn ar waith am yr ail flwyddyn lawn yn 2010-11 ac mae'n adeiladu at yr asesiad llinell sylfaen yr adroddwyd arno ym mis Rhagfyr 2010.

37 Mae llawer o drigolion Torfaen yn wynebu tlodi a diweithdra. Mae hyn yn golygu bod angen i'r Cyngor a sefydliadau partner gydweithio i gynorthwyo plant sy'n agored i niwed, eu teuluoedd ac oedolion i wella eu hansawdd byw. Mae'r gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfuno portffolios gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai sy'n cynnig cyfleoedd i gydweithio mewn gwasanaethau allweddol sy'n effeithio ar fywydau pobl sy'n agored i niwed. Mae'r gyfarwyddiaeth yn gweithio mewn partneriaeth pan fo hynny'n cynnig cyfleoedd am well canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol eraill, sefydliadau gwirfoddol lleol, Heddlu Gwent a'r gwasanaeth iechyd. Parhaodd Prif Weithredwr Torfaen i arwain *Rhaglen Llesgedd Gwent* yn ystod y flwyddyn, a pharatowyd ar gyfer ei lansio yn y pum awdurdod lleol a gymerodd ran a Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan ar 1 Ebrill 2011.

38 Mae gwasanaethau cymdeithasol wedi dangos y manteision o weithio mewn partneriaeth gyda gwell canlyniadau ar gyfer pobl a allai fod angen cymorth amrywiol. Enghraifft o hyn yw'r canlyniadau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal.

39 Mae'r paragraffau canlynol yn nodi canfyddiadau AGGCC. Cynhaliwyd arolygiad o wasanaethau plant yn canolbwyntio ar blant sy'n derbyn gofal a phenderfyniadau ym mis Mehefin 2011, ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf. Dangosodd canfyddiadau'r arolygiad bod plant a phobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael eu cadw'n ddiogel, ac yna'n cael cefnogaeth briodol i ennill mwy o annibyniaeth wrth iddynt dyfu'n oedolion.

40 Dechreuodd y gwasanaethau cymdeithasol y flwyddyn drwy geisio gwella capasiti a chefnogi gwaith ataliol mewn gwasanaethau plant ac oedolion. Fodd bynnag, roedd rhaid i'r gyfarwyddiaeth hefyd gymryd cyfran o arbedion effeithlonrwydd corfforaethol a oedd yn deillio o'r hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni. Ceisiodd uwch reolwyr gynnal y

cynnydd oedd eisoes wedi'i wneud, tra'n cydbwyso pwysau ariannol sylweddol a'r angen i sicrhau arbedion pellach. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan y gyfarwyddiaeth orwariant o £500,000, sy'n golygu bod angen newid y ffordd y defnyddir adnoddau yn 2011-12.

41 Mae contractau â'r sector gwirfoddol wedi'u hadolygu gyda rhywfaint o ostyngiadau mewn cyllid, er mwyn rhoi blaenoriaeth i gyllid i gyflawni cyfrifoldebau statudol. Cynigiodd tri deg pedwar aelod o staff a rheolwyr yn y gyfarwyddiaeth gymryd diswyddiad gwirfoddol ar ddiwedd y flwyddyn, sef tua 48 y cant o'r diswyddiadau gwirfoddol ledled y Cyngor. Golyga hyn bod angen ailstrwythuro'r sefydliad ar ddiwedd y flwyddyn a byddwn yn teimlo effaith lawn y penderfyniadau yn 2011-12.

42 Mae defnyddwyr gwasanaethau wedi bod yn awyddus i gyfrannu at wella gwasanaethau ac maent wedi parhau i gyfarfod mewn grwpiau fel y grŵp 'Dweud eich Dweud', sy'n darparu gwasanaeth craffu ar waith cynllunio strategol ychwanegol gan y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Fel rhan o'r broses hon, bu'r grŵp yn cyfarfod Prif Arolygydd AGGCC i rannu eu safbwyntiau ar ansawdd ac ystod y gwasanaethau. Cyfrannodd defnyddwyr gwasanaethau eraill at yr adolygiad o ansawdd a gwerth am arian y gwasanaethau anabledd dysgu.

43 Mae cynnydd cyson o ymholiadau ac atgyfeiriadau wedi bod i Wasanaethau Oedolion. Golyga hyn ei bod wedi cymryd mwy o amser i ddyrannu atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau, gan gynyddu'r amser y mae'n rhaid i unigolion aros am wasanaethau. Yna, roedd gostyngiad amlwg yn nifer yr adolygiadau o becynnau gofal unigol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn. Mae angen i'r Cyngor archwilio ai'r galw cynyddol sy'n llwyr gyfrifol am y dirywiad mewn perfformiad ac felly ni all fod yn ffyddiog bod y gwasanaethau a drefnir yn darparu canlyniadau da i'r unigolion hyn, gan gynnwys gwerth am arian. Mae'r gwasanaeth wedi gallu datblygu rhai arferion a datblygiadau polisi fel gwella effeithiolrwydd y cyfnod pontio ar gyfer pobl ifanc wrth droi'n oedolion; rhai i fod yn annibynnol, ond bydd rhai angen cymorth gan wasanaethau oedolion.

44 Mae'r gwaith o gomisiynu a monitro contractau wedi parhau i fod yn gadarn. Mae hyn yn bwysicach fyth gan fod y mwyafrif o wasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu prynu gan ddarparwyr annibynnol a thrydydd sector. Mae hyn yn golygu bod y dirywiad mewn perfformiad o ran cynnal adolygiadau yn fwy arwyddocaol, gan y bydd yn cyfyngu cyfraniad rheolwyr gofal at lywio gwaith monitro contractau.

**Mae'r Cyngor yn parhau i weinyddu budd-daliadau tai a chyngor yn effeithiol ac yn arwain y gwaith o ddatblygu gwasanaeth integredig newydd gyda Chyngor Sir Fynwy**

45 Mae timau Budd-dal Tai a'r Dreth Gyngor yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion mewn nifer o feysydd, gan gynnwys tlodi plant, digartrefedd, bod heb waith a chymorth ar gyfer pobl ag anabledd. Drwy wneud hynny, maent hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni Amcanion Gwella amrywiol. Mae gwasanaethau budd-daliadau effeithiol yn hwyluso mynediad tecach i gartrefi boddhaol ac mae hynny'n helpu i ddatrys problemau iechyd. Gall gwasanaethau budd-daliadau sy'n

perfformio'n wael rwystro pobl rhag dychwelyd i waith cyflogedig, atal pobl rhag derbyn y cymorth ariannol sydd ei angen arnynt ac achosi caledi ychwanegol.

46 Yn 2009, roedd 20.8 y cant o gartrefi yn Nhorfaen yn derbyn budd-dal tai, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 17.5 y cant. Mae 27 y cant yn derbyn budd-dal y dreth gyngor o gymharu â chyfartaledd Cymru o 23.9 y cant am yr un cyfnod. Mae'r cymariaethau hyn yn gosod Torfaen yn chwartel uchaf cynghorau Cymru o ran perfformiad.

47 Roedd poblogaeth 'oedran budd-daliadau' Torfaen (h.y. y rhai a allai hawlio budd-daliadau) yn ail ar bymtheg yng Nghymru (lle mai'r cyntaf yw'r uchaf) ym mis Mai 2011. Roedd ei faich achosion bryd hynny mewn safle tebyg, sef y pymthegfed uchaf yng Nghymru.

48 Mae'r baich achosion yn Nhorfaen, ym mis Mai 2011 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael), wedi cynyddu 6.5 y cant ers mis Ebrill 2009 (h.y. dros y ddwy flynedd ddiwethaf). Mae hyn ychydig o dan y cyfartaledd yng Nghymru sef saith y cant dros yr un cyfnod. Mae nifer y derbynyddion budd-dal tai wedi cynyddu ers mis Ebrill 2009 o ychydig dros wyth y cant ac ychydig yn llai na chwech y cant ar gyfer budd-dal y dreth gyngor. Mae'r ddau gynnydd yn debyg i'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru ar gyfer y cyfnod hwnnw, sef wyth y cant ar gyfer derbynyddion budd-dal tai a phump y cant ar gyfer derbynyddion budd-dal y dreth gyngor, sy'n dangos bod mwy o bobl yn Nhorfaen wedi bod yn hawlio yn y ddwy flynedd ddiwethaf er bod cyfradd y cynnydd yn is nag mewn rhai cynghorau eraill.

.49 Ar y cyfan, cymerwyd 21 diwrnod i brosesu hawliadau newydd yn 2010-11. Mae hyn yn cymharu'n dda â chyfartaledd Cymru a'r DU o 23 diwrnod am yr un cyfnod. Mae'r gwelliant yn well na'r hyn a gafwyd ledled y DU yn ystod y flwyddyn (h.y. gwelliant o dri diwrnod yn Nhorfaen o gymharu â dirywiad o ddau ddiwrnod ledled y DU ar y cyfan). Mae ffigurau'r Cyngor yn dangos ei fod wedi cymryd saith diwrnod i brosesu hysbysiadau o newidiadau mewn amgylchiadau yn 2010. Mae hyn yn cymharu'n dda â chyfartaledd y DU o 10 diwrnod a'r cyfartaledd yng Nghymru o saith diwrnod am yr un cyfnod. Mae'r perfformiad yn parhau'n sefydlog, ac nid yw'n ailadrodd y dirywiad cyffredinol mewn perfformiad fel yr hyn a welwyd ledled y DU o gymharu â 2009-10.

50 Ym mis Gorffennaf 2011, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o ddatblygiad gwasanaeth a rennir rhwng Torfaen a Sir Fynwy er mwyn darparu'r gwasanaeth budd-daliadau Tai a'r Dreth Gyngor i'r ddau gyngor. Nododd yr adolygiad nifer o risgiau i'r Cyngor fynd i'r afael â nhw ac argymhellodd sefydlu fframwaith partneriaeth ffurfiol a chynllun gweithredu ar gyfer y prosiect.

**Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi gwneud cynnydd da o ran cynorthwyo pobl agored i niwed i barhau i fyw'n annibynnol**

51 Gall gofal o ansawdd da yn y gymuned wella lles pobl a lleihau'r angen i bobl fynd i'r ysbyty neu i gartrefi gofal. Gall hefyd leihau'r amser y mae pobl yn gorfod ei dreulio yn yr ysbyty, drwy sicrhau bod ganddynt y cymorth sydd ei angen arnynt i fynd adref neu ofal priodol os na allant. Fel arall, bydd oedi cyn trosglwyddo gofal rhwng ysbytai a'r gymuned, a gallai hyn

arwain at brinder gwelyau mewn ysbytai. Yn 2010-11, pennodd y Cyngor Amcan Gwella i helpu pobl fregus a llesg i aros yn eu cartrefi. Mae'r gwaith yn ystod y flwyddyn gyntaf wedi canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer gweithredu *Rhaglen Llesgedd Gwent*.

52 Nododd ein hadolygiad o gynnydd y Cyngor yn erbyn ei Amcan Gwella i helpu pobl i aros yn eu cartrefi fod y Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'r systemau a'r seilwaith angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae gan y Cyngor swyddi iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd ar lefel prif swyddog strategol, ac mae partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol yn datblygu a gwella sut maent yn rhannu gwybodaeth a chynllunio gwasanaethau i sicrhau bod pobl agored i niwed yn gallu parhau i fyw'n annibynnol. Mae lefel y cydweithio rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd wedi gwella ac mae'n parhau i ddatblygu, a dylai'r penodiadau staff ar y cyd diweddar atgyfnerthu'r trefniadau cyfredol.

53 Mae perfformiad o ran mesurau annibyniaeth allweddol wedi gwella'n sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf. Er enghraifft, gostyngodd yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol o 74 yn 2009-10 i 46 yn 2010-11 a chynyddodd nifer y bobl hŷn (65 oed a hŷn) a gynorthwywyd i fyw gartref o 1,946 i 2,294. Wrth i Raglen Llesgedd Gwent gael ei gweithredu, mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn adolygu'r wybodaeth am berfformiad sydd ar gael i ganolbwyntio ar arddangos effaith cydweithio ar unigolion.

54 O ystyried y risgiau a'r heriau a phwysigrwydd canolog Rhaglen Llesgedd Gwent wrth foderneiddio a gweddnewid gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ar gyfer pobl fregus yng Ngwent, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad cychwynnol o'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Rhaglen ledled y bartneriaeth. Bydd y gwaith archwilio'n canolbwyntio ar ddarparu sicrwydd cynnar bod y Rhaglen ar waith ac yn gweithio mewn ffordd sy'n debygol o gyflawni'r nodau a'r canlyniadau sydd wedi'u nodi, a bydd y casgliadau'n cael eu cynnwys yn yr Asesiad Corfforaethol nesaf.

**Mae'r cynnydd o ran gwella Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn amrywio**

55 Mae Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn helpu i dalu costau addasu fel y gall pobl hŷn, pobl anabl neu bobl agored i niwed barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Adolygwyd gwasanaeth grantiau cyfleusterau i'r anabl y Cyngor yn 2009, a daethom i'r casgliad nad oedd y Cyngor yn darparu gwasanaeth effeithiol. Cyflwynodd y Cyngor Amcan Gwella yn 2010-11 i wella'r modd y mae'n darparu grantiau, a chytunodd ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion ein hadolygiad 2008/09. Dangosodd archwiliad mewnol dilynol gan y Cyngor yn 2011-12 fod chwech o'r 14 argymhellion wedi'u cwblhau ac wyth heb eu cyflawni o hyd. Felly, nid yw'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran rhoi'r camau gweithredu ar waith.

56 Cymysg fu perfformiad y Cyngor o ran cyflwyno Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i gyflwyno'r Grantiau hyn wedi parhau i ddirywio, gyda'r perfformiad yn

disgyn o gyfartaledd o 206 o ddiwrnodau yn 2008-09 i 351.29 o ddiwrnodau yn 2010-11. Yn yr un modd, mae'r nifer sydd ar restr aros y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi cynyddu yn y misoedd diweddar, o 287 ym mis Mawrth 2011 i 364 ym mis Medi 2011. Yr hyn sy'n gadarnhaol yw bod mwy o bobl yn dweud eu bod yn fodlon gyda chanlyniad cyffredinol y broses Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, gyda'r sgorau bodlonrwydd cadarnhaol yn cynyddu o 91 y cant yn 2009-10 i 95.5 y cant yn 2010-11. Yn ogystal â hyn, llwyddodd y Cyngor i gynyddu nifer y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a ddarparwyd, o 100 yn 2009-10 i 124 yn 2010-11. Mae amrywiaeth y gwaith a gynhaliwyd hefyd wedi newid, gyda'r Cyngor yn ymwneud â llai o grantiau mawr nag yn y gorffennol. Ychydig iawn o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl Unigol sy'n costio mwy na £30,000 bellach ac mae 75 y cant o'r arian sy'n cael ei wario fel grant yn werth llai na £10,000 (Arddangosyn 1).

Arddangosyn 1: Nifer y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a ddarparwyd fesul band cost

Mae'r Cyngor yn darparu mwy o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl cost isel bellach.

| Cost y Grant Cyfleusterau i'r Anabl | Nifer y Grantiau a gwblhawyd |
|---|---|
| Llai na £5,000 | 39 |
| £5,000 – £10,000 | 60 |
| £10,000 – £20,000 | 13 |
| £20,000 – £30,000 | 6 |
| £30,000+ | 6 |

57 Mae'r Cyngor wedi lleihau lefel yr arian cyfalaf sydd ar gael i dalu am waith Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, gyda'r gyllideb yn gostwng o £1.3 miliwn yn 2008-09 i £1.1 miliwn yn 2009-10, 2010-11 a 2011-12; oherwydd tanwariant. Nid yw'r dyraniad ar gyfer cyllideb 2012-13 wedi'i bennu eto, ond rhagwelir y bydd yn parhau i fod yn £1.1 miliwn. Mae nifer y staff cyfwerth ag amser llawn sy'n ymdrin â'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi gostwng, o 18 o staff yn 2010 i 14 o staff yn 2011 – gostyngiad o 20 y cant. O gofio'r lleihad mewn adnoddau a'r cynnydd araf wrth gyflawni'r gwelliannau a bennwyd, mae'r cyfleoedd am welliannau pellach yn ansicr.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran gwella mynediad i addysg cyfrwng Gymraeg a darparu rhaglenni sy'n cefnogi pobl i gael gwaith

**Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda o ran gwella mynediad i addysg Gymraeg**

58 Mae gan y Cyngor Amcan Gwella i wella mynediad i addysg Gymraeg ar lefel meithrin, cynradd ac uwchradd, ac roedd ei Gynllun Gwella 2010-11 yn cynnwys dau gam gweithredu ategol sef:

- cynyddu'r ddarpariaeth gynradd a meithrin cyfrwng Gymraeg; ac
- adnewyddu, ailfodelu ac ehangu'r ysgol uwchradd Gymraeg.

59 Cafodd ysgol gynradd Gymraeg newydd y Cyngor (Ysgol Panteg) a'r ddarpariaeth feithrin newydd yn Ysgol Bryn Onnen eu cwblhau ym mis Medi 2010. Mae hyn yn golygu bod darpariaeth gynradd a meithrin cyfrwng Cymraeg ar gael ledled y Fwrdeistref bellach, a bod y Cyngor yn gallu ateb y galw cyfredol. Mae'r Cyngor yn deall galw tebygol y dyfodol am addysg Gymraeg yn dda trwy'i system ragweld gadarn a thrafodaethau rheolaidd â'r grŵp Rhieni dros Addysg Gymraeg. Mae'r galw ar gynnydd, ac mae'r Cyngor eisoes yn cynllunio sut i ateb y galw yn y dyfodol.

60 Fel y cynlluniwyd, mae'r Cyngor wedi llwyddo i gwblhau'r ddau gam gyntaf o ran ehangu'r ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae newydd gychwyn ar drydydd cam y prosiect, sydd ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn y dyddiad a bennwyd sef Medi 2012.

61 Wrth i fwy a mwy o blant meithrin a chynradd dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r ffaith y bydd galw cynyddol am ddarpariaeth uwchradd hefyd. Gyda disgwyl i Ysgol Gyfun Gwynllyw fod yn llawn erbyn 2015, mae ei *Raglen Moderneiddio Ysgolion* yn cynnwys cynlluniau i sefydlu ysgol uwchradd Gymraeg arall.

62 Y llynedd, cyfeiriwyd at y ffaith bod angen ehangu'r mesurau perfformiad i gynnwys effaith yr Amcan Gwella ar gyrhaeddiad addysgol. Dylai dysgwyr elwa ar ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg ac amgylchedd ysgol gwell. Mae'r Cyngor wedi cynnwys Amcan Gwella penodol o godi safonau cyrhaeddiad addysgol yng Nghynllun Gwella 2011-12, sy'n cynnwys dangosyddion perthnasol i fesur perfformiad o ran cyrhaeddiad. Bydd y Cyngor hefyd yn gallu defnyddio'i asesiad o effaith yr ysgolion newydd a'r ysgolion a adnewyddwyd ar ddysgu, presenoldeb a lles.

**Mae'r Cyngor yn darparu cyfleoedd i bobl gynyddu eu sgiliau er mwyn cael gwaith, ond fel pob awdurdod lleol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, yn wynebu heriau wrth geisio lleihau diweithdra**

63 Mae darparu cyfleoedd i gynyddu swyddi yn waith pwysig a phriodol i'r Cyngor ganolbwyntio arno yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Blaenoriaeth y Cyngor yn 2010-11 oedd cyflwyno rhaglenni gwaith sy'n darparu'r addysg a'r sgiliau angenrheidiol i oedolion a phobl ifanc gael gwaith. Wrth adolygu'r cynnydd o gymharu â'r Amcan Gwella, gwelsom esboniad da o'r camau a gymerwyd gan y Cyngor i wella cyfleoedd i bobl wella'u sgiliau er mwyn cael gwaith mewn meysydd amrywiol.

64 Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod adroddiad hunanasesu'r Cyngor yn canolbwyntio ar y meysydd y mae'n eu gwella ac nad yw'n cyfeirio at y meysydd lle nad yw'n gweithredu arnynt. Mae angen i'r Cyngor gyflwyno darlun mwy cytbwys o berfformiad. Er enghraifft, byddai nodi pa awdurdodau a cholegau addysg bellach y mae'r Cyngor yn cydweithio â nhw yn cryfhau'r adolygiad o'i berfformiad a'r camau eraill a gymerwyd i gefnogi cyflogaeth.

65 Mae'r mesurau llwyddiant a ddefnyddir gan y Cyngor yn dangos bod nifer y bobl sy'n cael cymorth i ganfod gwaith wedi cynyddu o 264 yn 2009-10 i 359 yn 2010-11. Yn yr un modd, cynyddodd y niferoedd a gofrestrodd ar raglenni *Pontydd i Waith a Sgiliau Gwaith i Oedolion* yn yr un cyfnod, o 1,778 i 2,545. Yn ychwanegol at hyn, gostyngodd nifer y bobl ifanc sy'n gadael ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o 8.2 y cant i 7 y cant y llynedd. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor uwchlaw cyfartaledd Cymru o 5.4 y cant, ac yn safle 17 o blith 22 awdurdod.

66 Mae'r lefelau diweithdra yng Nghymru wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, ac roedd 137,000 yn ddi-waith ddiwedd Tachwedd 2011[3]. Yn Nhorfaen, mae'r niferoedd sy'n ddi-waith ac yn hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith wedi cynyddu'n sylweddol hefyd - sef 2,754 ddiwedd mis Tachwedd 2011, cynnydd o 371 ers mis Tachwedd 2010. Mae lefelau diweithdra yn Nhorfaen yn parhau'n uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU. Er bod rhai pobl yn amlwg wedi elwa ar weithgareddau'r Cyngor, mae'n wynebu mwy o her nag erioed.

67 Mae Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn arolygu pa mor dda mae cynghorau'n helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau. Mae Estyn yn arolygu gwasanaethau cyn-ysgol fel meithrinfeydd, ysgolion, colegau a gwasanaethau ieuenctid yn rheolaidd. Rydym yn gweithio gydag Estyn er mwyn asesu pa mor llwyddiannus mae'r Cyngor yn cefnogi'r gwasanaethau hyn i helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu. Arolygodd Estyn y Cyngor ym mis Hydref 2011 a bydd yn adrodd y canfyddiadau ym mis Chwefror 2012. Byddwn yn adlewyrchu canlyniadau Estyn yn ein Asesiad Corfforaethol nesaf.

## Mae gwaith y Cyngor i sicrhau gwelliannau sy'n helpu i greu a chynnal yr ardal fel lle diogel, llewyrchus a dymunol yn amrywio o ran safon

**Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cynlluniau a mentrau i wella trefniadau ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau gwastraff yn ddiweddar a fydd o gymorth i sicrhau gwelliannau hirdymor, ond mae'r perfformiad yn dirywio ar hyn o bryd o gymharu â'r rhan fwyaf o fesurau llwyddiant**

68 Mae gan y Cyngor Amcan Gwella o gynyddu'r lefelau ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau gwastraff ac mae'n bwriadu gwneud hyn trwy fabwysiadu strategaeth rheoli gwastraff newydd a mentrau i gynorthwyo gwasanaethau casglu rheng flaen. Wrth adolygu'r gwasanaethau, gwelsom fod y Cyngor yn gwneud cynnydd o ran cyflawni'r Amcan Gwella ond nad oes digon o sicrwydd

3 *Ystadegau Economaidd Allweddol,* StatsCymru, 16 Rhagfyr 2011.

ynghylch gwerth am arian neu gynaliadwyedd neu gynyddu cyfraniad dinasyddion, wrth gyflwyno'r strategaeth wastraff.

69 Mae'r strategaeth wastraff newydd, a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2011, bellach ar waith ac yn cael ei chefnogi gan gyfres o fentrau rheoli gwastraff a modelau ariannol ar gostau darparu gwasanaeth sy'n para hyd 2024-25. Mae'r Cyngor yn cydweithio â chynghorau eraill a'r sector preifat i gaffael seilwaith trin gwastraff. Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu casglu holl wastraff bwyd a gardd y sir a'i drin mewn gwaith treulio anaerobig mewn partneriaeth â chynghorau bwrdeistref sirol Caerffili a Blaenau Gwent. Hefyd, mae'n cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i gyflwyno cynlluniau hirdymor ar gyfer trin gwastraff gweddilliol na ellir ei ailgylchu.

70 Mae adroddiad y Cyngor, *Ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol sy'n Bwrw Golwg yn ôl Dros y Flwyddyn Ariannol 2010-11*, yn cynnig asesiad cryno o gynnydd y gwasanaeth rheoli gwastraff. Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth gytbwys o wybodaeth am berfformiad i'w helpu i gynllunio mentrau gwastraff, ac er mwyn adrodd am ei Amcanion Gwella a blaenoriaethau. Mae'r Cyngor hefyd yn gwneud defnydd da o'r rhan fwyaf o wybodaeth am berfformiad er mwyn helpu i wneud penderfyniadau am adnoddau, gwneud newidiadau gweithredol ac asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

70 Er hynny, nid yw'r wybodaeth am berfformiad yn rhoi cymaint o bwyslais ar gynaliadwyedd neu werth am arian, ac nid yw'n defnyddio llawer o gymariaethau meincnodi. Mae gwybodaeth am berfformiad yn dangos bod y Cyngor bron ag anfon mwy na'i lwfans gwastraff i safleoedd tirlenwi sy'n cynyddu'r perygl o gael cosb ariannol. Mae'r perfformiad mewn sawl mesur perfformiad allweddol wedi dirywio hefyd. O'r naw mesur a bennwyd gan y Cyngor i farnu'i berfformiad, mae wyth wedi gwaethygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn arbennig, anfonwyd mwy o wastraff bioddiraddadwy i safle tirlenwi o gymharu â 2009-10; a chafodd llai o wastraff ei gompostio a'i ailgylchu o gymharu â 2009-10.

**Mae'r Cyngor wedi gwella'r amser mae'n ei gymryd i benderfynu ar geisiadau cynllunio a'u cymeradwyo**

72 Mae gan y Cyngor Amcan Gwella i wella effeithlonrwydd y gwasanaeth Rheoli Datblygu. Roedd ein hadolygiad yn dangos bod perfformiad wedi gwella. Er enghraifft, mae'r amser a gymerir i brosesu ceisiadau cynllunio wedi gostwng o 119 diwrnod yn 2009-10 i 52.6 diwrnod yn 2010-11. Yn yr un modd, mae data'r Cyngor yn dangos bod cyfran yr achosion cynllunio y gwnaed penderfyniad yn eu cylch o fewn wyth wythnos wedi cynyddu i 74 y cant ym mis Mehefin 2011, sef dwywaith yn uwch na'i berfformiad o 35.4 y cant yn 2009-10, sy'n well na chyfartaledd Cymru bellach.

73 Yn sgil colledion staff diweddar, ni chafwyd cymaint o welliannau â'r disgwyl o fewn y gwasanaeth, ac mae'r perfformiad wedi dechrau dirywio'n ddiweddar. Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd. Cyflwynodd y Cyngor newidiadau i'r gwasanaeth ddiwedd 2010-11, ond nid yw'n dangos unrhyw ddata cymharol ar gyfer y blynyddoedd cynharach. Byddai rhywfaint o ddata hanesyddol yn ddefnyddiol, gan ddefnyddio dangosyddion perfformiad cenedlaethol os nad oes rhai lleol ar gael, er mwyn helpu rhanddeiliaid i asesu effaith y newidiadau ar berfformiad y Cyngor yn well. Dylai'r Cyngor hefyd gymharu ei berfformiad ochr yn ochr â meincnodau cenedlaethol.

## Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi crynodeb da o'i berfformiad er y gallai wella ei hunanwerthusiad o lwyddiant ei waith

**Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi asesiad clir o'i berfformiad ei hun, sydd wedi'i gyflwyno'n dda**

80 Adolygodd y Cyngor ei berfformiad yn 2010-11 mewn dogfen 44 tudalen *Ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol sy'n Bwrw Golwg yn ôl Dros y Flwyddyn Ariannol 2010/11* (yr Adroddiad Perfformiad). Mae fersiwn Gymraeg ar gael ar wefan y Cyngor, ac mae fersiwn print bras ar gael ar gais hefyd. Gellir ei lawrlwytho o wefan y Cyngor a chyhoeddwyd crynodeb dwyieithog yn Torfaen Talks, cylchlythyr y Cyngor. Mae'r crynodeb wedi'i gyflwyno mewn ffordd hawdd i'w ddarllen a'i ddeall. Mae'n nodi'n glir beth yw'r canolbwynt ar gyfer gwella a sut mae'n gysylltiedig â blaenoriaethau cyfredol, ac mae'r wybodaeth am gynnydd yn rhoi trosolwg cryno o berfformiad. Mae'r fersiynau llawn a chryno o'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys adran i ddinasyddion sydd eisiau rhagor o wybodaeth neu sy'n dymuno cymryd rhan yn y dyfodol.

81 O gofio'r hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n rhesymol disgwyl i gynghorau nodi'u perfformiad ariannol yn eu hadroddiad perfformiad, gan ddweud faint maent yn ei wario mewn meysydd gwasanaeth, ac a ydynt yn gwneud arbedion fel y cynlluniwyd a chynnwys cymariaethau costau. Byddai cyfeirio at effaith y pwysau yn sgil cynnydd mewn galw a llai o arian allanol hefyd yn helpu i reoli disgwyliadau'r cyhoedd.

82 Nid yw Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cynnwys unrhyw grynodeb ariannol cyffredinol na chysylltiad â'r *Datganiad o Gyfrifon* a gyhoeddwyd. Mae yna adran fer ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd sy'n nodi bod y Cyngor yn parhau i chwilio am ddulliau i leihau costau, cynyddu cynhyrchiant, gwella lefelau incwm a chydweithio, ond ni cheir unrhyw enghreifftiau o hyn. Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cyfeirio at 'gyllideb gweddnewid' a mentrau buddsoddi i arbed, ond nid yw'n dweud beth mae'r Cyngor wedi'i gyflawni. Nodir ambell fuddsoddiad unigol, yn enwedig rhai wedi'u hariannu gyda grant, ond ni cheir unrhyw wybodaeth am wariant, arbedion neu berfformiad o gymharu â chyllidebau a thargedau arbedion.

83 Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn dweud bod yr 'adnoddau sydd ar gael i ni'n lleihau flwyddyn ar ôl blwyddyn' ond nid yw'n darparu unrhyw wybodaeth am hyn i roi rhyw fath o gyd-destun i'r darllenydd, neu wybodaeth am brosesau cynllunio tymor canolig neu'r pwysau yn sgil galw nawr ac yn y dyfodol. Ni cheir cyfeiriad at y dreth gyngor, arbedion gwirioneddol neu'r perfformiad o gymharu â chyllidebau. Ar yr ochr gadarnhaol, mae'r Cyngor wedi amlinellu'r heriau ariannol sy'n wynebu holl gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru yn *Torfaen Talks*, ac wedi sicrhau bod y dinasyddion yn ymwybodol o'r effaith bosibl ar wasanaethau lleol ac ar waith y Cyngor. Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn yr Adroddiad Perfformiad fodd bynnag.

84 Ar y cyfan, mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cynnwys sylwadau defnyddiol ar berfformiad y Cyngor ac yn cyflawni'i ddyletswyddau statudol i adrodd am ei berfformiad. Er enghraifft, mae'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys tystiolaeth o berfformiad yn ôl dangosyddion cenedlaethol ac i ba raddau y cwblhawyd y camau gweithredu bwriedig; yn cymharu â chyfartaledd Cymru y dangosyddion cenedlaethol; ac yn cynnwys disgrifiad o'r cynnydd a'r cyflawniad yn erbyn yr amcanion gwella. Er hynny, mae'r ffaith nad oes datganiad gwerthuso cyffredinol i gyd-fynd â phob Amcan Gwella yn lleihau effeithiolrwydd yr adroddiad yn gyffredinol. Nid yw'n cynnwys

ambell wybodaeth ddefnyddiol chwaith, fel sut berfformiodd y Cyngor o gymharu â'i dargedau.

85 Dyma'r tro cyntaf y gofynnwyd i gynghorau Cymru gyflwyno adroddiad am eu perfformiad o safbwynt Amcanion Gwella, a disgwylir y bydd rhai cyfleoedd i ddysgu a gwella'r modd o wneud hyn. Mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyhoeddi gwybodaeth am welliannau; er hynny, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn rhoi mwy o sylw i ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth weithredu, yn benodol wrth ddangos effaith ei waith ac adrodd yn llawn ar gyflawni ei amcanion a'i fwriadau.

**Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cyflwyno darlun amrywiol o'i berfformiad**

86 Mae systemau'r Cyngor ar gyfer adrodd am berfformiad wedi hen ennill eu plwyf ac mae ei Adroddiad Perfformiad yn cymharu'r perfformiad â'r Dangosyddion Perfformiad Strategol[4] ar gyfer pob un o flaenoriaethau i'r cynllun corfforaethol. Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn defnyddio tystiolaeth ehangach nag a ddefnyddiwyd yn adroddiadau'r gorffennol. Mae'r Adroddiad Perfformiad yn amlinellu'n glir i'r darllenydd beth mae'r Cyngor yn ceisio'i wella, a pham mae'r meysydd hyn yn bwysig i drigolion Torfaen. Mae'r holl Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol wedi'u cynnwys, sy'n dangos y perfformiad dros y cyfnod 2006-7 i 2010-11 a'r cyfartaledd Cymru gyfan mwyaf diweddaraf ar gyfer y Dangosyddion Strategaeth Cenedlaethol unigol. Nid yw, er hynny, yn cynnwys gwerthusiad o ba mor llwyddiannus y mae'r Cyngor yn meddwl ei fod wedi cyflawni.

87 Mae'r Cyngor yn gosod targedau bob blwyddyn ar gyfer y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol. Mae gosod targedau yn gallu bod yn ffordd ddefnyddiol o herio sefydliad neu faes gwasanaeth penodol i gyflawni'n well. Gall targedau gyflwyno dull o edrych i'r dyfodol a gwybodaeth am lefel gweithgarwch y gwasanaeth ac a yw'n cyflawni'r targedau ai peidio. Nid yw'r Cyngor, fodd bynnag, yn adrodd am ei berfformiad yn erbyn ei dargedau. Mae hyn yn golygu nad yw'r dinasyddion yn gallu barnu pa mor llwyddiannus mae'r Cyngor yn cyflawni o gymharu â'i dargedau.

88 Er bod y dadansoddiad yn cyflwyno crynodeb da o berfformiad, gellir ei wella trwy ddadansoddi data'n well a chyflwyno gwybodaeth mewn modd sy'n galluogi dinasyddion i farnu gwasanaethau'n well. Er enghraifft, nodi'n glir pa elfennau o'i wasanaethau sy'n gwella, pa feysydd sy'n dirywio a nodi'n glir beth mae hyn yn ei olygu i ddinasyddion yn y dyfodol.

89 Yn gadarnhaol, mae'r Cyngor wedi adrodd am ei berfformiad o ran cyflawni blaenoriaethau ei Gynllun Corfforaethol cyntaf yn 2006 yn *Ein Hadroddiad Perfformiad Cynyddol sy'n Bwrw Golwg yn ôl Dros y Flwyddyn Ariannol 2010/11*. Mae'n dangos mai cynnydd amrywiol a gafwyd wrth wneud gwelliannau ar sail blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol cyntaf (Arddangosyn 2). Mae'r Cyngor yn cyfeirio at 10 mesur lle cafwyd gwelliant neu ble lwyddwyd i gyflawni'r targedau; mae chwech yn dangos dirywiad mewn perfformiad neu fethiant i gyflawni targedau; ac nid oedd gwybodaeth am un mesur yn ystod y cyfnod hwn.

4 Mae Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol allweddol, ac mae pob awdurdod lleol yn eu casglu a'u cyhoeddi yn eu Cynlluniau Gwella.

Arddangosyn 2: Mae perfformiad y Cyngor yn amrywio wrth sicrhau gwelliannau yn erbyn y mesurau a bennwyd yn ei Gynllun Corfforaethol cyntaf yn 2006.

| Maes blaenoriaeth | Nifer y mesurau lle cafwyd gwelliant | Nifer y mesurau lle cafwyd dirywiad neu fethu â chyflawni targedau |
|---|---|---|
| Gwella gwasanaethau i bobl fregus a gwella canlyniadau iechyd i bawb drwy hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach. | 2 | 1 |
| Gwella ansawdd, amrywiaeth a fforddiadwyedd tai a gostwng lefelau digartrefedd. | 1 | 3 |
| Gostwng trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithredu i helpu pobl i deimlo'n ddiogel yn eu cymdogaethau. | 1 | 1 |
| Gwella ansawdd addysgu a dysgu ar gyfer pobl ifanc a myfyrwyr eraill, a sicrhau bod gan ddinasyddion o bob oed y sgiliau angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth ac i adfywio'u cymunedau lleol. | 2 | 1 |
| Gwella rheoli gwastraff a chynyddu ailgylchu, felly'n creu ardal lanach sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.. | 4 | 0 |

90 Mae adroddiad perfformiad y Cyngor o gymharu â'i Gynllun Corfforaethol cyntaf yn dangos ei fod yn ymrwymo i gyflwyno gwybodaeth glir ac agored am ei berfformiad. Bydd yr ymrwymiad hwn yn helpu'r Cyngor i ddatblygu'r modd y mae'n mesur llwyddiant wrth gyflawni'i ail Gynllun Corfforaethol a pha mor lwyddiannus y mae'n cyflawni ei Amcanion Gwella yn y dyfodol.

91 O ran yr Amcanion Gwella unigol, mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cynnwys data o dueddiadau os yw ar gael, ond gan mai mesurau lleol priodol yw rhai o'r mesurau perfformiad, nid oes modd cymharu perfformiad â chynghorau neu gyrff cyhoeddus eraill. Mae'r Adroddiad hefyd yn darparu gwybodaeth am bob Amcan Gwella ac yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth gyd-destunol am gyllidebau a'r galw. Mae'r Cyngor yn nodi'n glir pam y dewiswyd yr Amcanion Unigol, ac yn nodi'n glir pwy yw'r partneriaid sy'n gweithio gyda'r Cyngor i'w cyflawni.

92 Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r dangosyddion perfformiad cyfredol yn rhoi cyfle cyson iddo fesur ei effaith ar ddinasyddion, ac mae wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran datblygu mesurau a systemau ategol newydd ers iddo bennu'r Amcanion Gwella cyntaf yn hydref 2010. Mae'r Cyngor yn parhau i fireinio ei wybodaeth am berfformiad a bydd gwaith pellach ar fireinio mesurau canlyniadau yn ei alluogi i farnu ac adrodd yn well am ei berfformiad.

**Nid yw bob amser yn glir a lwyddodd y Cyngor i wneud yr hyn yr oedd am ei wneud**

93 Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cynnwys crynodeb o'r cynnydd o ran cyflawni amrywiaeth o weithgareddau yn erbyn yr Amcanion Gwella. Er hynny, nid yw'r wybodaeth am y cynnydd ac ansawdd y mesurau perfformio a ddefnyddiwyd bob amser yn nodi'n glir a phendant a yw'r Cyngor yn gwneud cynnydd yn erbyn Amcanion Gwella unigol. Fel y nodwyd uchod yn ein hasesiad o'r cynnydd yn erbyn Amcanion Gwella unigol, mae'r Adroddiad Perfformiad yn cyfeirio at y gwaith a gyflawnodd y Cyngor yn 2010-11, ond nid yw'n datgan yn glir a gyflawnwyd y gwaith a fwriadwyd nac yn dangos sut mae ei ymdrechion wedi gwella perfformiad. Er enghraifft, o dan *Gwella'r ffordd yr ydym yn darparu'n grantiau cyfleusterau i'r anabl* mae'r Adroddiad Perfformiad yn trafod y camau gweithredu amrywiol a ddatblygwyd yn 2010-11, ond nid yw'n glir beth oedd effaith hyn ac a lwyddwyd i gyflawni'r holl gamau gweithredu a bennwyd yn 2010-11.

**Mae'r Cyngor yn defnyddio ei bwyllgorau craffu i herio gwasanaethau, a bydd adrodd am berfformiadau'n rheolaidd yn galluogi'r aelodau i graffu ar berfformiad yn fwy effeithiol**

94 Mae gan bwyllgorau craffu rôl bwysig yn y gwaith o reoli perfformiad a chefnogi gweithgarwch gwella. Maent yn gweithio fel eiriolwyr cymunedol sy'n cyflwyno syniadau ac anghenion y gymuned er mwyn helpu'r Cyngor i ddatblygu polisi, ac yn craffu ar benderfyniadau'r Cabinet, perfformiad y Cyngor a sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion. O fewn y Mesur, mae rôl y pwyllgorau craffu wedi'i nodi'n glir fel elfen allweddol o brosesau gwella'r cyngor.

95 Nid yw'r Cyngor yn cyflwyno adroddiad cyson i'w bwyllgorau craffu am y cynnydd diweddaraf ar gyflawni Amcanion Gwella a pherfformiad ehangach ei wasanaethau, er bod ambell weithgaredd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ei adolygu. Er hynny, mae'r holl adroddiadau perfformiad yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn fel rhan o fframwaith polisi'r Cyngor. Mae yna bum pwyllgor craffu ar waith, sy'n pennu eu rhaglenni gwaith eu hunain ar ôl ystyried y ffactorau amrywiol gan gynnwys amcanion y Cyngor, y peryglon sydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr risg, cynlluniau gwasanaethau, adroddiadau allanol a'r penderfyniadau allweddol a wnaed. Nid yw adroddiadau perfformiad yn cael eu cyflwyno i bwyllgorau craffu ar hyn o bryd, ond mae'r Cyngor yn bwriadu cyflwyno hyn ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol yn ystod gwanwyn 2012.

**Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei Gytundebau Canlyniadau, ac mae ganddo systemau cadarn ar gyfer rheoli ac adrodd am berfformiad**

96 Mae Cytundebau Canlyniadau rhwng Llywodraeth Cymru a chynghorau unigol yn nodi sut y bydd y naill a'r llall yn gweithio i wella canlyniadau i bobl leol, yng nghyd-destun blaenoriaethau cenedlaethol y Llywodraeth. Nid yw Cytundebau Canlyniadau yn cymryd lle'r trefniadau rheoli perfformiad a chynllunio gwasanaethau sylfaenol sydd eisoes ar waith. Yn hytrach, maent yn darparu fframwaith sy'n seiliedig ar ganlyniadau a phwyslais ar gynllunio gwasanaeth, cynllunio adnoddau a rheoli perfformiad.

97 Fel rhan o'n gwaith asesu blynyddol, fe wnaethom adolygu cais *Cytundeb Canlyniadau* y Cyngor i Lywodraeth Cymru. Roedd ein hadolygiad yn dangos bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei Gytundebau Canlyniadau. Mae cysylltiad cryf rhwng y Cytundebau Canlyniadau ac Amcanion Gwella'r Cyngor a'i flaenoriaethau ar gyfer gwella.

98 Mae ein hasesiad o'r cynnydd yn cyd-fynd â gwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad ei hun. Cafwyd cynnydd o ran cyflawni'r rhan fwyaf o dargedau'r Cytundebau Gwasanaethau. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd fel sail i hunanasesiad y Cyngor yn gadarn ar y cyfan, er bod angen gwella rhai meysydd o hyd, yn enwedig mesurau i farnu a yw pobl yn well eu byd. Ni chafodd camau a gynlluniwyd eu cyflawni mewn rhai rhaglenni ond nid yw'r Cyngor wedi esbonio hyn, ac mewn rhai achosion, nid oes cyfeiriad at effaith y camau a gynlluniwyd a gafodd eu cyflawni.

99 Archwiliwyd systemau'r Cyngor ar gyfer rheoli ac adrodd am ei ddangosyddion perfformiad allweddol yn 2010-11. Y mae gofyn i bob cyngor adrodd am berfformiad yn erbyn Dangosyddion Strategol Cenedlaethol ac roedd y rhain yn gywir i raddau helaeth.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad Gwella blynyddol, a chyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau, parciau cenedlaethol a'r awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi paratoi'r adroddiad hwn fel rhan o'i ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni'i ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 ac sy'n dweud a ydyw, yn sgil ei archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, yn credu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan adran 15.

Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Mae cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yn enghreifftiau o awdurdodau gwella.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni'i ddyletswyddau. Mae'r Asesiad Gwella wedi'i lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw'r awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau arfaethedig er mwyn mynegi barn ar hanes yr awdurdod o sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau hefyd, gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21) ac mewn perthynas â hyn bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, ac efallai yn cyhoeddi'r adroddiad hwnnw (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu'r gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol yr holl reoleiddwyr perthnasol mewn awdurdod gwella. Hefyd, gall yr Archwilydd Cyffredinol ystyried y wybodaeth a rennir gan y rheoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Dorfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

## Y Cyngor

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gwario tua £266 miliwn y flwyddyn (2010-11). Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £29.2 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd. £1,180 y flwyddyn oedd y dreth gyngor band D gyfartalog yn 2010-11. Mae'r Cyngor yn cynnwys 44 aelod etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau am flaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau. Mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 18 Llafur
- 13 Annibynnol
- 5 Ceidwadwyr
- 3 Plaid Cymru
- 2 Democratiaid Rhyddfrydol

Alison Ward yw Prif Weithredwr Torfaen. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cynnwys:

- Peter Durkin, Dirprwy Brif Weithredwr
- Nigel Aurelius, Prif Weithredwr Cynorthwyol
- Dave Congreve, Prif Weithredwr Cynorthwyol

## Gwybodaeth arall

Lynn Neagle o'r Blaid Lafur yw Aelod Cynulliad Torfaen. Mae rhai dinasyddion hefyd yn byw yn etholaeth Mynwy lle mae Nick Ramsey yn Aelod Cynulliad.

Dyma Aelodau Cynulliad Rhanbarthol y De-ddwyrain:

- Mohammad Asghar, Plaid Geidwadol Cymru
- Jocelyn Davies, Plaid Cymru
- William Graham, Plaid Geidwadol Cymru
- Lindsay Whittle, Plaid Cymru

Paul Murphy o'r Blaid Lafur yw Aelod Seneddol Torfaen.

Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan y Cyngor ei hun, www.torfaen.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, y Ganolfan Ddinesig, Pontypŵl NP4 6YB.

# Atodiad 3
# Cyfrifon a defnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen o adnoddau

Cyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yr adroddiad archwilydd canlynol ar 25 Hydref 2011.

Yr Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Swyddfeydd y Cyngor
Y Ganolfan Ddinesig
Pontypŵl
NP4 6YB

Annwyl Gynghorydd Wellington

**Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

Fel y gwyddoch, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012 a bydd rhai o'r materion yr arferwyd adrodd arnynt yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi manteisio ar y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o fy nghyfrifoldebau statudol yn y llythyr byr hwn sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol. Mae'r llythyr yn ddogfen annibynnol, ond bydd hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac felly'n cyflawni fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen â'r gofynion adrodd sy'n ymwneud â'i berfformiad ariannol a'i ddefnydd o adnoddau.

**1** Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'r trefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon.

**2** Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon; a
- chyflwyno tystysgrif i gadarnhau fy mod wedi cwblhau archwilio'r cyfrifon.

3 Ar 28 Medi 2011, cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o drafodion a sefyllfa ariannol y Cyngor a'r Gronfa Pensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Roedd ychydig o faterion yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon a hysbysais yr aelodau amdanynt yn adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a gyflwynais i'r Pwyllgor Archwilio ar 20 Medi 2011. Roedd y materion mwyaf arwyddocaol fel a ganlyn:

- Cywiro'r gwall yn y gwaith o gyfrifyddu nodyn credyd o £450,000 a oedd wedi'i gynnwys yn y golofn dyledwyr yn lle'r golofn credydwyr.
- Yn dilyn ymholiadau archwilio, nododd a chywirodd y tîm rheoli wall o £5.2 miliwn yn y datganiad llif arian.
- Egluro newid hwyr yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 a oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gydnabod atebolrwydd ychwanegol o £259,000 mewn perthynas â chyfraniadau pensiwn ar y dyfarniad cyflog a ôl-ddyddiwyd sy'n codi o hawliadau cyflog cyfartal. Ni chafodd y newid hwn ei brosesu gan y Cyngor oherwydd nad oedd o'r farn ei fod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol. Roedd y mater hwn hefyd yn effeithio ar Gronfa Pensiwn Gwent Fwyaf ar gyfer nifer fach o awdurdodau lleol eraill a weinyddir trwy'r cynllun ac, unwaith eto, ni wnaed unrhyw newid ar sail perthnasedd.

4 O 2010/11, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Roedd y safonau newydd hyn yn golygu llawer o waith ychwanegol i staff cyllid y Cyngor. Rwy'n falch o nodi bod cyfrifon y Cyngor wedi'u paratoi erbyn y dyddiad statudol a bennwyd ac i safon uchel, er gwaethaf y pwysau ychwanegol hwn.

5 Roedd fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar waith archwilio'r cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009). Bydd prif ganfyddiadau i'r gwaith hwn yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Hoffwn hefyd dynnu'ch sylw at y canlynol:

- Fel rhai awdurdodau eraill yng Nghymru, nid yw'r Cyngor wedi mynd ati i ddatblygu cynllun ariannol tymor canolig eto. Rwy'n deall bod y mater hwn wrthi'n cael ei ystyried gan swyddogion fel rhan o'r broses o bennu cyllideb gydag aelodau ar gyfer 2012-13 ymlaen. Byddaf yn crynhoi cynnydd y Cyngor yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddir ym mis Ionawr 2012.

**6** Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o’r cyfrifon wedi’i gwblhau ar 28 Medi 2011.

**7** Disgwylir i’r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2010-11 fod yn unol â’r swm a nodir yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol.

**Barrie Morris, Grant Thornton UK LLP**
**Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

25 Hydref 2011

# Atodiad 4
# Amcanion Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynllunio i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Bob blwyddyn, mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei amcanion gwella yn ei Gynllun Gwella, Tua'r Dyfodol, sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn http://www.torfaen.gov.uk/CouncilAndDemocracy/ImprovingTorfaen/Home.aspx

| Amcanion gwella ar gyfer 2010-11 |
|---|
| Helpu pobl fregus i aros yn eu cartrefi |
| Gwella'r ffordd y caiff grantiau cyfleusterau i'r anabl eu cyflwyno |
| Gwella mynediad i addysg Gymraeg |
| Cynyddu lefelau ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau gwastraff |
| Rhoi cyfleoedd i bobl wella eu sgiliau ar gyfer cyflogaeth |
| Gwella gwasanaethau cynllunio |

| Amcanion gwella ar gyfer 2011-12 |
|---|
| Sicrhau bod pobl yn cael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt |
| Annog cynhwysiant cymdeithasol |
| Codi safonau cyrhaeddiad addysgol |
| Rhoi cyfle i bobl wella eu hiechyd |
| Codi ymwybyddiaeth o'r dewisiadau tai sydd ar gael |
| Sicrhau bod ystod a safon y tai yn briodol i ddiwallu anghenion pobl |
| Sicrhau bod tai cynaliadwy da yn cael eu datblygu ledled y Fwrdeistref Sirol |
| Sicrhau bod addysg i bob plentyn a pherson ifanc yn gynhwysol ac yn hygyrch |
| Sicrhau bod plant yn ddiogel |
| Datblygu darpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn ysgol |
| Cefnogi ac amddiffyn plant sy'n agored i niwed |
| Gwella mynediad i wasanaethau gofal cymdeithasol |
| Sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu hasesu'n amserol a bod y gofal a ddarperir yn briodol |

| Amcanion gwella ar gyfer 2011-12 |
| --- |
| Sicrhau bod ystod ac ansawdd y gwasanaethau gofal cymdeithasol yn briodol i ddiwallu anghenion pobl |
| Hyrwyddo annibyniaeth pobl |
| Cefnogi pobl a chymunedau lleol i gymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol |
| Cydlynu gweithgareddau sy'n lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol |
| Sicrhau bod yr amgylchedd lleol yn ddiogel ac yn cael ei reoli a'i gynnal a chadw |
| Darparu gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu effeithlon ac effeithiol |
| Sicrhau bod ffyrdd a strydoedd yn ddiogel, yn cael eu cynnal a'u cadw, ac yn lân |
| Gweithio mewn gwahanol ffyrdd i leihau ein costau |
| Creu lleoliadau dysgu newydd sy'n briodol i'r unfed ganrif ar hugain |
| Cefnogi cymunedau i fod yn gynaliadwy, yn ymrymusol ac yn ffyniannus |
| Gwella mynediad pobl i gyfleoedd dysgu, cymwysterau a hyfforddiant |
| Trawsnewid y ddarpariaeth addysgol i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed |

## Hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen o'i berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yng Nghynllun Gwella 2 ar wefan y Cyngor yn http://www.torfaen.gov.uk/CouncilAndDemocracy/ImprovingTorfaen/Home.aspx

# Atodiad 5
# Cynnydd o gymharu â chynigion blaenorol ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **1** Gwerthuso effeithiolrwydd rôl y Cyngor mewn partneriaethau. | Mae ein gwaith i archwilio cynnydd yn y maes hwn yn anghyflawn a byddwn yn adrodd ar y pwnc yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* nesaf. |
| **2** Ffurfioli'r broses cynllunio ariannol tymor canolig a chyhoeddi'r strategaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu a rheoli asedau er mwyn cefnogi gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor. | Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran adolygu effaith lleihau cyllid ac mae'n gweithio gyda'r Weithrediaeth i gytuno ar sut i fynd i'r afael â'r heriau ariannol sy'n ei wynebu.<br><br>Hyd yma, nid yw hyn wedi'i ffurfioli i broses cynllunio ariannol tymor canolig ond cyflwynwyd rhagolygon i'r Cabinet ym mis Ionawr 2012 ac mae'n debygol y bydd canlyniad yr adolygiad ar gael erbyn mis Mawrth 2012.<br><br>Er nad oes gan y Cyngor gynllun neu strategaeth gweithlu ar hyn o bryd, mae ganddo drefniadau ar waith i reoli a defnyddio ei weithlu. Mae'n gwneud cynnydd da o ran cryfhau'r trefniadau hynny trwy ddiweddaru polisïau a gweithdrefnau yn unol ag arfer gorau. Mae ganddo hefyd weledigaeth strategol uchelgeisiol ar gyfer datblygu strategaeth gweithlu i'r holl wasanaethau cyhoeddus yn Nhorfaen. Mae'n gwella ei ddull o gynllunio'r gweithlu i adlewyrchu'r cynlluniau hyn. |
| **3** Gweithredu rhaglen sy'n ymgorffori rheoli perfformiad ym mhrosesau rheoli gweithredol yr holl wasanaethau. | Mae'r Cyngor yn defnyddio system rheoli perfformiad Cymru gyfan Ffynnon i gefnogi'r gwaith o fonitro perfformiad ac adrodd yn erbyn amrywiaeth o ddangosyddion. Mae gwendidau blaenorol mewn perthynas ag ansawdd y wybodaeth am berfformiad a nifer y gwallau wrth grynhoi gwybodaeth sy'n sail i'r gwaith adrodd ar berfformiad wedi gwella'n sylweddol.<br><br>Mae'r Cyngor wedi diwygio ei ganllawiau ar Gynllunio ar gyfer Gwella Gwasanaethau a gweithdrefnau ategol i gryfhau atebolrwydd staff am berfformiad a gwelliant. Nid yw'r rhain yn ddigon cadarn ledled y Cyngor i ddangos bod yr amcanion gwella'n cael eu cyflawni'n effeithiol, ond mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn nifer o feysydd gwasanaeth. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **4** Rhoi hyfforddiant ar waith i helpu aelodau dibrofiad i gyflawni eu cylch gwaith yn effeithiol. | Mae'r Cyngor wrthi'n gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac yn cynnal adolygiad o graffu i helpu aelodau i gyflawni eu gwaith yn fwy effeithiol. Mewn ymateb i'r adolygiad cyfredol, rydym wedi gohirio cyflwyno ein hadolygiad o graffu a llywodraethu i asesu canlyniad asesiad CLILC i sicrhau ein bod yn dibynnu ar gasgliadau lle bo hynny'n briodol ac yn addasu ein gwaith i ganolbwyntio ar faterion penodol. |
| **5** Hyfforddi a chefnogi'r Pwyllgor Archwilio fel y gall gyflawni ei gylch gwaith yn fwy effeithiol o ran cyfrifoldeb statudol y Cyngor i sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau gwelliannau parhaus mewn perthynas â'i swyddogaethau. | Mae Swyddfa Archwilio Cymru a Grant Thornton wedi darparu hyfforddiant i'r Pwyllgor Archwilio i gefnogi'r broses o ddatblygu swyddogaeth a ffocws y Pwyllgor. Mae ein gwaith i archwilio cynnydd yn y maes hwn yn anghyflawn a byddwn yn adrodd ar y pwnc yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* nesaf. |
| **6** Cyhoeddi ei Amcanion Gwella nesaf yn gynnar yn y flwyddyn ariannol a sicrhau bod ei Adroddiad Gwella ar gael yn hawdd i'r cyhoedd yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. | Cyhoeddodd y Cyngor ei Amcanion Gwella cyntaf ym mis Mehefin 2010 yn ôl y gofyn ac mae wedi'u diweddaru ar gyfer 2011. Mae'r Cyngor wedi bodloni'r gofynion statudol, er ein bod wedi nodi rhai meysydd lle dylai'r Cyngor ystyried cymryd camau gweithredu. |
| **7** Egluro effaith ei Amcanion Gwella o ran y buddiannau y mae am eu cyflawni i ddinasyddion a sicrhau ei bod yn bosibl eu cyflawni o ystyried gostyngiadau mewn adnoddau. | Mae gwaith yn parhau i ddatblygu cyfres briodol o ddangosyddion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a dangosyddion sy'n cyd-fynd yn well â gweithgarwch gweithredol.<br><br>Bydd datblygu dangosyddion gwell yn hwyluso dulliau craffu a gwerthuso perfformiad mwy cadarn. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn archwilio cynigion i gryfhau trefniadau er mwyn gwella'r swyddogaeth graffu a nodi cyfleoedd i wella perfformiad gwasanaeth.<br><br>Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad, yn enwedig mewn perthynas â'i Amcanion Gwella, a byddwn yn cyflwyno ein canfyddiadau yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* nesaf. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **8** Datblygu mesurau llwyddiant a ategir gan wybodaeth am sut mae'r Cyngor yn perfformio ar hyn o bryd, beth yw ei dargedau, dadansoddiad o gost a sut mae ei berfformiad yn cymharu â chynghorau eraill. | Er bod yr Amcanion Gwella a'r Cynllun Corfforaethol 2 yn cynnwys mesurau llwyddiant, nid ydynt bob amser yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac mae yna orddibyniaeth ar Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol mewn rhai meysydd. Mae rhai dangosyddion perfformiad lleol ar waith ac mae gwaith yn parhau i ddatblygu mesurau canlyniadau gwell. Fodd bynnag, nid yw'r dogfennau cyhoeddedig yn cynnwys unrhyw linellau sylfaen neu dargedau i fesur llwyddiant. Ychydig iawn o waith sydd wedi'i wneud ar gost y mesurau darparu.<br><br>Byddwn yn cyflawni gwaith i archwilio cynnydd yn y maes hwn ac yn adrodd arno yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* nesaf. |
| **9** Nodi safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer pob maes gwasanaeth y gellir monitro perfformiad yn eu herbyn. | Ychydig iawn o gynnydd sydd wedi'i wneud ar bennu safonau gwasanaeth gofynnol a byddwn yn cyflawni gwaith i archwilio cynnydd yn y maes hwn ac yn adrodd arno yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* nesaf. |
| **10** Sicrhau y caiff y dull o bennu Amcanion Gwella, sy'n canolbwyntio ar gyflawni gwell canlyniadau i ddinasyddion, ei gymhwyso i'r broses o gynllunio, darparu, monitro ac adrodd ar amrywiaeth lawn swyddogaethau a gweithgareddau'r Cyngor. | Mae gwaith ymgynghori wedi gwella ac mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda dinasyddion ar gwmpas a blaenoriaethau darparu ei amcanion gwella unigol.<br><br>Er bod yr Amcanion Gwella a Chynllun Corfforaethol 2 yn cynnwys mesurau llwyddiant, nid ydynt bob amser yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac mae yna orddibyniaeth ar Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol mewn rhai meysydd. Mae rhai dangosyddion perfformiad lleol ar waith ac mae gwaith yn parhau i ddatblygu mesurau canlyniadau gwell. Fodd bynnag, nid yw'r dogfennau cyhoeddedig yn cynnwys unrhyw linellau sylfaen neu dargedau i fesur llwyddiant.<br><br>Byddwn yn cyflawni gwaith i archwilio cynnydd yn y maes hwn ac yn adrodd arno yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* nesaf. |
| **11** Darparu hyfforddiant pellach i reolwyr canol ac aelodau ar reoli ariannol a rheoli cyllideb i gefnogi cynlluniau ariannol tymor canolig. | Bydd y Cyngor yn adolygu anghenion hyfforddiant aelodau yn dilyn etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2012. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **12** Mae Amcanion Gwella a Chynllun Corfforaethol 2 y Cyngor yn bodloni gofynion allweddol y Mesur. Fodd bynnag, er mwyn adeiladu ar ofynion y canllawiau statudol, gallai'r Cyngor gynnwys gwybodaeth ehangach am weithgareddau a chanlyniadau mewn meysydd nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan yr Amcanion Gwella, yn enwedig effaith arbedion a dadfuddsoddiadau arfaethedig; a sicrhau bod fersiynau cryno a Chymraeg o'r Cynllun ar gael cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'r fersiwn Saesneg. | Bydd y Cyngor yn cyhoeddi ei gynllun nesaf ar gyfer y dyfodol yng ngwanwyn 2012. |
| **13** Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ac effeithiol ar waith wrth greu gwasanaethau integredig a chydweithredu, a bod eu heffaith yn cael ei gwerthuso'n rheolaidd. | |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk